OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 709 (Cy.76)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004

*Wedi'u gwneud - - 10 Mawrth 2004*

*Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 56(1)(b) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac ar ôl ymghynghori â Chyngor Gofal Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a dehongli.**

**1.**—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004 a daw i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol o dan hyfforddiant" ("*student social worker*") yw person sy'n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan y Cyngor o dan adran 63 o'r Ddeddf ar gyfer personau sydd am fod yn weithwyr cymdeithasol.

**Pennu gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant**

**2.** Pennir gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant drwy hyn at ddibenion adran 56(1)(b) o'r Ddeddf (gofyniad i'r Cyngor gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol penodedig).

(**1**) 2000 p.14. Rhoddir y pwer i'r Gweinidog priodol a ddiffinnir yn adran 121(1) o'r Ddeddf fel "the Assembly" mewn perthynas â Chymru. *Gweler* adran 5(b) o'r Ddeddf am y diffiniad o "the Assembly".

(**2**) *Gweler* adran 56(4) o'r Ddeddf am y gofyniad i ymghynghori.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*John Marek*
Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

10 Mawrth 2004

(**3**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant at ddibenion adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae Adran 56 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Gofal Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy orchymyn.